

## **Cyngor Cymuned Llanllyfni**

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor nos Fawrth, 14eg o Fai 2019.

1. **Presennol:** Harry Wyn Owen, Sian Dafydd – Talysarn; Hefina MW Roberts, OP Huws, Gwyndaf Roberts – Llanllyfni; Iona Wyn Jones, Erfyl Williams, Barry Bracegirdle – Penygroes; Ffion Jones – Nantlle; Dafydd Thomas – Nebo; Judith Humphreys – Cyngorydd Sir/ **Ymddiheuriadau:** Nerys Williams, Justin Davies, Dylan Herbert – Penygroes.
2. **Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Neb yn datgan buddiant.
3. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod Ebrill.** OP Huws yn cynnig cywirdeb a Harry Wyn Owen yn eilio.
4. **Llythyr o ymddiswyddiad – Nora Jones, Talysarn.**
5. **Cyngorwyr Sir – Adroddiadau.** Diolchwyd Judith am fynychu bron pob cyfarfod y Cyngor drwy gydol y flwyddyn. Y Cyngorwyr yn siomedig nad yw'r Cyngorydd Dilwyn Lloyd yn dod i'n cyfarfodydd.
6. **Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd.** Arwydd newydd 'Traffig Lleol yn Unig' i'w roi ar y gylchfan i Penygroes; Cyflymder wrth yr ysgolion – y Cynulliad i osod arwyddion 20mya yn Genedlaethol? Cofeb R Williams Parry – wedi gofyn am gadarnhad o Un Llais ynglyn a chyfrifoldeb; Trethi lleol – llythyr wedi ei ddiwygio wedi ei yrru; Taldrwst – nifer o lorïau pob dydd, yn enwedig amser ysgol. Ydy'r Cyngor yn gwneud yn siwr fod amodau yn cael eu dilyn? Am pa mor hir mae'r gwaith yn mynd i fynd yn ei flaen? Y lonydd yn gwaethygu gyda difrod a thyllau. Y Cyngor Cymuned yn anfodlon.
7. **Materion Pentrefi Llanllyfni** Gofyn wrth y Post i gynnwys Pentref Llanllyfni yn eu galwadau wythnosol. Posib cwtogi ar lefydd eraill er mwyn ehangu'r gwasanaeth pwysg yma; Diolch i Cyngor Gwynedd am y bin aml-bwrpas yn y pentref, o flaen yr ysgol; Holi eto am drwsio lon Bryn Sisyllt; Holi eto am arwydd 'dim ffordd trwodd' ar gyfer Lon Talgarnedd a Lon Tyddyn Agnes. **Talysarn** Lon o Talysarn i Penygroes yn gwaethygu efo tyllau; **Nebo** Grafel ar yr allt ger Tu Hwnt i'r Afon, ac yn beryglus i feics. **Penygroes** Twll yn y pafin ar Stad Bryn Llwyn (wrth rhif 1, drws nesaf i'r Eglwys) – y pafin wedi rhoi a'r twll yn ddyfn; Mainc ger y fflatiau – cysylltu efo Cartrefi Cymunedol unwaith eto i holi; Meinciau wrth y Neuadd Goffa angen eu paentio; Gofyn os yn bosib cael ramp ar y lon o Clwb Bach i lawr at y cae pel droed i arafu traffig. Mae llawer o blant o gwmpas yn y lleoliad yma, yn enwedig pan mae gem bel droed, a mae cerbydau yn gor-yrru yn creu perygl. **Nantlle** Gofyn am fin yn y gilfan ar y lon; Meinciau yn y gilfan ac yn y pentref angen eu paentio – gofyn i Cyngor Gwynedd.
8. **Taflen Ariannol a Chyllid.**
9. **Cynllunio:** C19/0349/22/LL – Bryniau Cochion, Nebo – Dymchwel cytiau cwn a chodi llety gwyliau yn ei le. Caniatáu.
10. **Cyfarfodydd is-bwyllgor / cyfarfodydd yn ystod y mis.** Dim i'w adrodd, ond cytunwyd bod angen is-bwyllgor mynwentydd yn fuan i drafod cam nesaf tirlunio MacPelah a materion mynwentydd.
11. **Goleuadau Nadolig.** Ar agenda mis nesaf.
12. **Clwb Ieuenctid.** Trafodaethau yn parhau. Y system o fynd o amgylch pentrefi ddim wedi gweithio.
13. **Di-ffibriliwr** Cynllun i uwchraddio'r hen Kiosk BT a chael di-ffibriliwr ynddo. Cafwyd cais i'r Cyngor Cymuned fabwysiadu'r kiosk a bod yn gyfrifol am y di-ffibriliwr. Ffiol yn datgan fod 'Achub y Galon' yn gyfrifol am yr un sydd ym mhentref Nantlle. Yn dilyn derbyn yr wybodaeth yma, dywedodd Judith ei bod am edrych i mewn i'r opsiynau ac adrodd yn ol cyn i'r Cyngor Cymuned wneud unrhyw benderfyniad. Y Clerc yn datgan fod y Cyngor eisioes wedi cytuno i roi £100 o gyfraniad tuag at yr achos.
14. **Arolwg Tai** OP Huws wedi ymholi os oes unrhyw ddatblygiad wedi dod o'r arolwg tai a wnaethpwyd yn y Dyffryn, oherwyd fod enw'r Cyngor Cymuned ar y ddogfen, a does dim adborth ynglyn a'r tir ar gyfer tai. Dim ymateb hyd yma i'n ymholiadau.
15. **Plastigion yn y mynwentydd** Corlenni yn cael eu cam-ddefnyddio yn y mynwentydd, a bod tomen o ysbwriel plastig, dim just blodau. OP yn awgrymu rhoi gwahoddiad i'r Cyngorwyr i gyd fynd i edrych i'r mynwentydd i weld beth allai gael ei wneud. £800 yn amcangyfrif y Cyngor i wagio'r corlenni blodau. Pawb sy'n gallu i gyfarfod yn y fynwent MacPelah nos yfogy. Dylid gofyn i Cyngor Gwynedd ei gwneud yn rheol gwaredu plastigion yn gyfrifol – gwahodd Steffan Jones (Cyngor Gwynedd) i gyfarfod arbennig.
16. **Gohebiaeth**  
**\*Cyngor Gwynedd:**  
\*Rhybudd – cau ffordd dros dro. Cau Ffordd Nasareth ar gyfer gwaith ail-wynebu – y Cyngorwyr yn bryderus os oes ystyriaeth wedi ei wneud i fysiau (bws ysgol a bws cyhoeddus)? Cyflwr y lon ddim i weld yn ddrwg – oes llyfnydd amgenach angen sylw yr ydym eisioes wedi bod yn gofyn amdanyn nhw?

**\*Arall**

\*Cyngor Cymuned Llandwrog – Ffi Parcio Dinas Dinlle. Trafodwyd y llythyr – y Cyngor yn gweld yr angen i Cyngor Gwynedd leihau problem ariannol, ond os yn mynd ymlaen efo'r cynllun arfaethedig, rhaid cael system mewn lle fel bod pobl leol ddim yn talu, a bod yr elw yn mynd tuag at y toiled fel bod Cyngor Cymuned Llandwrog ddim yn gorfod talu.

\*Cyflwyniad i Orfodaeth Cynllunio

\*Cadarnhad aelodaeth Un Llais 2019-20

**17. Llwybrau a Mynwentydd** Cais am giat – dim gwrthwynebiad, gan fod y giat newydd arfaethedig yn cymryd lle un arall sydd yno'n barod; Llwybr Llwydcoed – cwynion fod rhwystrau ar y llwybr. Cysylltu efo Cyngor Gwynedd eto – a gofyn mewn faint maen nhw'n bwriadu gweithredu; Llwybr 29 – rhan ohono, yn dod y Tyn y Weirglodd i Lon Las angen ei dorri; Lon Eifion heibio Bryn Rhedyw, Coed Cae Du – ffens bren wedi malu, pryder y gall rhywun frifo; Llwybr 82 o Penchwarel – a oes posib cael cadarnhad gan Gyngor Gwynedd o leoliad y llwybr i gyd, a'r statws; Gofyn am asesiad o bont Boncen Eithin – ddim yn edrych yn saff. **Mynwent** Cais i roi defaid i bori ar y cae newydd yn MacPelah; Judith yn adrodd fod rhywun wedi baglu yn mynwent St Rhedyw – mae hon yn fynwent hynafol iawn, a mae arwyddion yno i ymwelwyr gymryd gofal.

**18. Materion yn ymweud a'r heddlu.** Atgoffa'r Heddlu o'r gwahoddiad a yrrwyd atynt.

**19. Materion ariannol** – Lwfansau Cynghorwyr – i'w dalu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol - yn drethadwy ac i'w dalu drwy PAYE; A Johnson - Derbynebaw Clerc - dim; A Johnson -£25 Rhyngwrwyd a Ffon; Cyngor Gwynedd £20515.52 – MacPelah. Cymeradwyo. Ad-daliad TAW a taliad Praesept wedi eu derbyn.

**20. Ceisiadau am Arian** – Bobath. Trafod fis Chwefror.